

Ffurflenni i gasglu data ar gyfer y gofrestr gwinllannoedd

Llenwi'r ffurflen yn electronig

- I llenwi'r ffurflen PDF hon, bydd angen Adobe Acrobat neu Reader f7 neu fersiwn ddiweddarach arnoch chi. Ewch i www.adobe.com i'w lawrlwytho am ddim.
- Teipiwch y manylion perthnasol yn y blychau.
- Gallwch gopïo a gludo testun i flychau eraill. Defnyddiwch y botwm Tab neu'r llygoden i symud rhwng blychau.
- Defnyddiwch yr eiconau +/- i chwyddo neu leihau'r ddogfen, a botymau saeth y bysellfwrdd neu'r barrau sgrolïo i symud i fyny ac i lawr.
- Dylech arbed y ffurflen PDF hon, ei hatodi mewn e-bost a'i hanfon i:
winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk
- Cadwch gopi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion.

Llenwi'r ffurflen â llaw

- Defnyddiwch **FEIRO** a **PHRIF LYTHRENNAU**.
- Postiwch y ffurflen i'r cyfeiriad isod:
FSA – Standards Branch (Wine)
125 Kingsway
London
WC2B 6NH
- Cofiwch gadw copi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion.

Nodiadau canllaw

Cyflwyniad

- Dechreuodd y DU gasglu data ar gyfer y Gofrestr Gwinllannoedd ym 1990. Ar hyn o bryd, mae mwy na 400 o winllannoedd gweithredol wedi'u cofnodi ar y Gofrestr, a gaiff ei chynnal gan y Bwrdd Safonau Gwin. Defnyddir manylion cyfeiriadau ar gyfer dosbarthu Datganiadau Cynhaeaf a Chynhyrchu er mwyn cael ystadegau cynhyrchu blynyddol ar gyfer y DU.
- Bydd yr holl wybodaeth a gedwir ar y gofrestr yn gyfrinachol. Bydd gennych chi'r hawl i archwilio'r wybodaeth sydd ar y cyfrifiadur ac i ofyn i'r Bwrdd Safonau Gwin ystyried newid eich manylion os oes modd cyfiawnhau hynny; yn arbennig, bydd gennych chi'r hawl i fynnu bod unrhyw wybodaeth nad sydd ei hangen bellach yn cael ei dileu bob hyn a hyn.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â llenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch arolygydd lleol. Mae manylion arolygwyr lleol ar gael drwy www.food.gov.uk/wine

Llenwi'r ffurflenni

- Yn fuan ar ôl i chi dderbyn y ffurflenni hyn, bydd yr arolygydd Safonau Gwin yn cysylltu â chi i drefnu cyfarfod ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd yr arolygydd yn rhoi cyngor i chi ar sut i gwblhau'r ffurflenni ac yn sicrhau eu bod yn gywir cyn mynd â nhw.
- Dan y Rheoliadau Gwin, mae gofyniad statudol arnoch i gwblhau'r ffurflenni amgaeedig naill ai os oes gennych winwydd yn gorchuddio 0.1 hectar (1/4 erw) neu fwy neu os yw eich gwinllan yn un fasnachol.

Nodiadau i'ch helpu i llenwi Rhan 1

1. "Daliadau" - un uned yw daliad, yn dechnegol ac yn economaidd, sydd o dan reolaeth unigol ac sydd naill ai ag arwynebedd tyfu gwin o 0.1 hectar (1/4 erw) neu fwy neu sy'n winllan fasnachol.
5. Cyfanswm arwynebedd eich daliad amaethyddol
Yn ogystal â chyfanswm arwynebedd y gwinwydd, dylech gynnwys tir â'r, tir pori a dolydd parhaol a thir a ddefnyddir ar gyfer cynydau parhaol a gerddi cegin.

Nodiadau i'ch helpu i llenwi Rhan 2

8. Rhif cyfres (*serial number*) y parsel
Os ydych chi'n llenwi Rhan 2 ar gyfer mwy nag un parsel, cofiwch nodi rhif dilynol pob parsel (e.e. 1, 2, 3).
9. "Parseli" – Arwynebedd parhaus i dyfu gwinwydd yn unig, wedi'i mesur yn ôl cnwd pur. Rhaid llenwi Rhan 2 ar wahân ar gyfer pob parsel unigol lle'r ydych chi'n tyfu gwinwydd.
- 10 (d). Mae toriadau ar gyfer lluosogi llystyfiant gwinwydd yn cynnwys:
 - toriadau â gwreiddiau: darnau o gyffion gwinwydd â gwreiddiau heb eu himpio y bwriadwyd eu defnyddio ar gyfer eu plannu heb eu himpio neu fel gwreiddgyffion;
 - impiadau â gwreiddiau: darnau o egin gwinwydd wedi'u cyfuno drwy impio, gyda gwraidd ar y darn dan ddaear;
 - toriadau gwreiddgyffion ar gyfer impio: darnau o gyffion gwinwydd y bwriadwyd i ffurfio'r rhan dan ddaear wrth baratoi impiadau â gwreiddiau;
 - toriadau planhigfa: darnau o gyffion gwinwydd y bwriadwyd ar gyfer cynhyrchu toriadau â gwreiddiau;
 - toriadau impiad wyneb: darnau o gyffion gwinwydd a fwriadwyd eu defnyddio i ffurfio'r rhan uwchben yr wyneb wrth baratoi impiadau â gwreiddiau.

Nodiadau i'ch helpu i lenwi Rhan 3

14. Dylid ailadrodd y rhifau cyfresol a roddwyd ar barseli unigol yn Rhan 2 yn y Rhan 3 perthnasol sy'n cynnwys manylion y math o winwydd ar gyfer y parcel hwnnw.

Cofrestru gwinllan: Rhan 2

Manylion parseli unigol

AT DDEFNYDD YR ASB YN UNIG

Cyfeirnod WSB:

Dyddiad
cofrestru:
 DD MM BBBB

9 Daliad/gwinllan

Enw'r daliad/gwinllan lle mae'r parcel:

10 Rhif Cyfresol y parcel

Enghraifft 1, 2, 3 ac ati.

11 Daliadaeth y parcel

Nodwch ddaliadaeth y parcel:

- ☐ Perchennog yn ffermio ☐ Tenant yn ffermio
☐ Ffermio ar y cyd ☐ Arall

12 Arwynebedd o dan mathau o rawnwin gwin

Ar gyfer y parcel, nodwch yr arwynebedd o dan y mathau o rawnwin gwin (mewn hectarau – 1 ha = 2.471 erw):

		PDO	PGI	Arall
A	Yn cynhyrchu (hectarau)			
B	Ddim yn cynhyrchu eto (hectarau)			
C	Ddim wrthi'n tyfu (hectarau)			
D	Unrhyw arwynebedd sydd ar ôl o dan winwydd na nodwyd yn (a) - (c) uchod, gan gynnwys arwynebedd y gwinwydd a fydd ond yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu deunydd ar gyfer cynhyrchu llystyfiant gwinwydd (hectarau)			
CYFANSWM arwynebedd (hectarau) o dan winwydd (a) + (b) + (c) + (d)		33.00		

Cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y nodiadau canllaw.

Dylid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob parcel.

13 Manylion y parcel

Graddiant – Nodwch y manylion canlynol ar gyfer nodweddion naturiol y parcel:

- ☐ Tir gwastad (graddiant ddim yn uwch na 5°)
☐ Ychydig o lethr (graddiant o fwy na 5° ond dim mwy na 15°)
☐ Llethr cymedrol (graddiant o fwy na 15° ond dim mwy na 30°)
☐ Llethr serth (graddiant o fwy na 30°)
☐ Teras

Uchder – Nodwch bwyntiau uchaf ac isaf y parcel:

Pwynt uchaf

(metrau uwchben lefel y môr)

Pwynt Isaf

(metrau uwchben lefel y môr)

Wynebweidd – Nodwch ba gyfeiriad mae'r parcel yn ei wynebu:

- ☐ Gogledd ☐ De ☐ Dwyrain ☐ Gorllewin
☐ Gogledd-ddwyrain ☐ Gogledd-orllewin
☐ De-ddwyrain ☐ De-orllewin
☐ NEU os yw'r parcel ar dir hollol wastad

Math o bridd – Os oes gennych chi'r wybodaeth hon, nodwch y math(au) o bridd a geir yn y parcel yn gyffredinol, yn ôl y dosbarthiadau sydd wedi'u rhestru isod, drwy roi tic yn y blychau priodol:

Uwchbridd:

- ☐ Tywod ☐ Tywod lomog ☐ Lôm tywodlyd
☐ Lôm silt tywodlyd ☐ Lôm silt ☐ Clai
☐ Lôm tywod a chlai ☐ Lôm clai ☐ Clai tywodlyd
☐ Lôm clai siltiog ☐ Clai siltiog ☐ Arall:

Isbridd:

- ☐ Tywod ☐ Tywod lomog ☐ Lôm tywodlyd
☐ Lôm silt tywodlyd ☐ Lôm silt ☐ Clai
☐ Lôm tywod a chlai ☐ Lôm clai ☐ Clai tywodlyd
☐ Lôm clai siltiog ☐ Clai siltiog ☐ Arall:

Cofrestru Gwinllan: Rhan 3

Manylion y mathau o winwydd a hwsmonaeth

AT DDEFNYDD YR ASB YN UNIG

Cyfeirnod WSB:

Dyddiad
Cofrestru:

DD

MM

BBBB

Cyn dechrau llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y nodiadau canllaw.

Dylid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob parsel.
Defnyddiwch linell ar wahân ar gyfer pob math o
winwydden neu wreiddgyff.

14 Manylion y daliad

Enw'r daliad lle mae'r parsel:

--

15 Rhif cyfresol y parcel

Enghraifft 1, 2, 3 ac ati.

--

16 Manylion y Winwydden

[illegible]

Os nad oes digon o le i chi nodi'r holl fathau o winwydd sydd gennych, ewch ati i lenwi copïau pellach o Ran 3.